**Pwyllgor Busnes** **BC210-01 (terfynol)**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 12 Mehefin 2001
**Amser:** 9-00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Personol y Trefnydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Wayne Cowley, Swyddfa Ffioedd (eitem 7 ar yr agenda).
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Llywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod William Graham wedi ymddiheuro er nad oedd wedi enwebu eilydd i fynychu'r cyfarfod yn ei le.

1.2 Nododd y Dirprwy Lywydd na fyddai ar gael i fynychu'r cyfarfod yr wythnos nesaf a gofynnodd i Kirsty Williams a fyddai'n barod i gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb. Cytunodd Kirsty.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC190-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC198-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Awgrymwyd newidiadau i baragraffau 6.1 a 8.1. Cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn terfynol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC198-01)

3.1 **Paragraff 3.3** papur ar newidiadau i'r canllawiau diwygiedig ar Gwestiynau'r Cynulliad a'r ffurflen gyflwyno. Ystyriwyd hyn o dan eitem 5.

3.2 **Paragraff 3.4** Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi trafod y papur ynghylch adolygu'r weithdrefn ar gyfer sesiwn holi Prif Weinidog Cymru gyda Phrif Weinidog Cymru a bydd yn ystyried y cynigion tra bydd dramor.
**GWEITHREDU: Y Trefnydd i adrodd yn ôl.**

3.3 **Paragraph 6.1** Dywedodd Marion Stapleton wrth y Pwyllgor y câi dadl y Cynulliad ar adroddiadau'r Pwyllgorau Rhanbarth ei threfnu ar gyfer yr wythnos gyntaf ar ôl dychwelyd o doriad yr haf. 18 Hydref yw'r dyddiad arfaethedig.

3.4 **Paragraph 8.1** Dywedodd y Trefnydd y byddai'n dwyn cynigion ger bron i ymdrin â'r cynnig diddymu a gyflwynwyd gan Glyn Davies mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001 (NNDM 663).
**GWEITHREDU: Y Trefnydd i adrodd yn ôl.**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Dywedodd Nerys Arch fod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r fersiwn Saesneg wedi'i gydgrynhoi o'r Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 2001 ac y byddai'r rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth (19 Mehefin). Nododd y byddai'r fersiwn Cymraeg yn cael ei baratoi pan fydd y drafft Saesneg ar gael. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod yn rhaid i aelodau ddeall yn glir beth y gofynnir iddynt ei gymeradwyo. Gofynnodd a fyddai modd gohirio ystyried y rheoliadau hyn. Yn ôl Marion Stapleton, roedd yn rhaid i'r rheoliadau gael eu sefydlu erbyn 1 Medi a byddai gohirio nes bod y fersiwn wedi'i gydgrynhoi ar gael yn golygu y byddai'n rhaid gwneud y rheoliadau o dan y weithdrefn Weithredol, o bosibl. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod hi wedi cael ar ddeall, o'r hyn a ddywedodd Nerys Arch ynghynt, mai dim ond ar ôl y ddadl y byddai'r fersiwn wedi'i gydgrynhoi ar gael. Roedd hi o'r farn y dylid osgoi defnyddio'r weithdrefn Weithredol hyd yn oed pe na bai aelodau'n cael gweld y fersiwn wedi'i gydgrynhoi. Cytunodd Kirsty Williams â'r farn hon.

4.2 Cytunodd y Dirprwy Lywydd y byddai hyn yn well dan yr amgylchiadau ond gobeithiai y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi'r sefyllfa hon yn y dyfodol.

4.3 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC200-01 i BC204-01 a oedd yn cynghori ar sut i ymdrin â phum darn o is-ddeddfwriaeth ddrafft. Cyflwynwyd y papurau yn enwau Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Carwyn Jones, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y cyngor a gafodd y Dirprwy Lywydd oddi wrth aelodau'r Pwyllgor Busnes oedd eu bod yn fodlon â'r argymhellion i beidio ag anfon pedwar o'r gorchmynion drafft a restrir isod at y pwyllgorau pwnc:

**Penderfynodd y Dirprwy Lywydd wedyn na fyddai'n rhaid cyfeirio'r pedwar gorchymyn canlynol i'r pwyllgorau pwnc:**

- **Rheoliadau Addysg (Newid Categori Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2001** (BC 200-01) *Gweithdrefn Gyflym*

- **Rheoliadau Addysg (Corff Sefydledig) (Cymru) 2001** (BC 201-01) *Gweithdrefn Gyflym*

- **Gorchymyn Deddf Dysgu a Sgiliau 2001 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001** (BC 202-01) *Gweithdrefn Gyflym*

- **Rheoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apeliadau) (Cymru) 2001** (BC203-01) *Gweithdrefn Arferol*

4.4 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2001. Nododd y Dirprwy Lywydd mai dim ond ar 4 Gorffennaf y cafodd y gorchymyn drafft ei osod ar y fewnrwyd ac felly nid oedd yn cydymffurfio â'r amserlen y cytunodd y Pwyllgor arni, sef 10 diwrnod cyn cael ei ystyried yn y cyfarfod llawn. Awgrymodd y dylid ei ohirio tan yr wythnos nesaf, os oedd digon o amser. Dywedodd Marion Stapleton y byddai angen trafod â'r Pwyllgor Deddfau i weld a fyddai hyn yn bosibl.
**GWEITHREDU: Marion Stapleton i ystyried ei ddwyn gerbron wythnos nesaf.**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur drafft ar Ddiwygio'r Cyfarwyddyd ar Gwestiynau'r Cynulliad (BC208-01).

5.2 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd am sylwadau ar yr amserlen ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig ac a fyddai'n addas i ganiatáu i aelodau nodi dyddiad ar gyfer atebion. Dywedodd y Trefnydd fod y Cabinet yn barod i ddarparu atebion o fewn 8 diwrnod gwaith o'r diwrnod y cafodd y cwestiwn ei gyflwyno (opsiwn (b) yn y papur). Awgrymodd y Dirprwy Lywydd y gellid, mae'n debyg, ddarparu atebion yn gynt pe byddid yn mabwysiadu'r opsiwn 8 diwrnod gwaith ac y gallai aelodau ofyn am atebion ar ddyddiau penodol. Cytunodd y Trefnydd y byddai'r ddau beth hyn yn bosibl. Dywedodd Paul Silk y dylid cynnwys rhywbeth yn y papur i nodi bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r newid hwn.
**GWEITHREDU: Y Swyddfa Gyflwyno i baratoi papur cyfarwyddyd drafft diwygiedig.**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur yn gofyn am ail gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Diwylliant. Diben y cyfarfod ychwanegol hwn yw cynnal trafodaethau gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar ei hymgynghoriad ar arddangos celf ac i drafod adroddiad terfynol adolygiad pum mlynedd yr Amgueddfa

Genedlaethol. Gan nad oedd hyn yn rhan o'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer busnes pwyllgorau'r Cynulliad ac amserlen y Pwyllgor ei hun ar gyfer slotiau ychwanegol, gofynnwyd am farn y Pwyllgor Busnes. Cynigiwyd cynnal y cyfarfod ddydd Iau 19 Gorffennaf.

6.2 Gan mai'r diwrnod cyn i'r Cynulliad dorri am yr haf oedd y dyddiad arfaethedig, gofynnodd y Dirprwy Lywydd i Marie Knox a oedd y Pwyllgor Diwylliant wedi cytuno'n unfrydol i gynnal y cyfarfod hwn. Dywedodd Marie Knox mai dyna'r oedd hi wedi'i ddeall oddi wrth Glerc y Pwyllgor Diwylliant.

**7. Busnes at y dyfodol**

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC207-01 a oedd yn disgrifio gwaith y Cynulliad ar gyfer yr wythnos.

7.2 Rhoddodd y Trefnydd fanylion ynghylch busnes y diwrnod a oedd yn adlewyrchu symudiad tuag at sefyllfa lle y byddai mwy o ddadleuon polisi yn cael eu cynnal mewn perthynas â deddfwriaeth. Dywedodd y byddai Jane Hutt y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ynghylch cymorth i ofalwyr. Yna, fe fyddai hi'n cyflwyno cynnig cyfansawdd i gymeradwyo'r ddeddfwriaeth ddrafft cyn cyflwyno cynnig i gymeradwyo'r adroddiad grant arbennig cysylltiedig. Roedd yn gobeithio y byddai aelodau'n gweld y cynnig hwn ar gyfer ymdrin â busnes yn y cyfarfod llawn fel ffordd ddilys o wella'r ffordd yr ymdrinnir â busnes. Dywedodd ei fod yn credu y byddai hyn o gymorth i wella argraff y cyhoedd o rôl y Cynulliad fel corff deddfwriaethol.

7.3 Mynegodd Jocelyn Davies bryder bod defnyddio datganiadau yn hytrach na dadleuon yn golygu bod aelodau dan anfantais ac nad oedd ganddynt yr un cyfle i gymryd rhan effeithiol, yn arbennig pan nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno gwelliannau fel yn achos cynigion ar gyfer dadleuon. Gofynnodd am eglurhad pellach. Atebodd y Trefnydd y byddai datganiadau'n cael eu defnyddio i ysgogi polisïau, sef yr hyn a oedd yn cael ei gynnig ar gyfer busnes y prynhawn hwnnw. Eglurodd ei fod yn derbyn y pwyntiau a wnaed ond teimlai mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cynnal mwy o ddadleuon ynghylch deddfwriaeth.

7.4 Nododd y Dirprwy Lywydd y byddai'n rhaid sicrhau gweithdrefn glir: er enghraifft, ni allai datganiad "ymgorffori" cynnig cyfansawdd.

**Y Datganiad Busnes Drfft**

7.5 Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi adrodd yn natganiad busnes yr wythnos diwethaf y byddai yna gynnig ar 19 Mehefin i ddiwygio'r Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7. Er hynny, yn dilyn cyngor cyfreithiol, credid y dylid cael adroddiad grant arbennig hollol newydd, yn hytrach na diwygio'r Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7. Y cynnig felly ar 19 Mehefin fydd cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 13. I raddau helaeth, mae hwn yr un peth ag adroddiad rhif 7 ond ei fod yn caniatáu i awdurdodau lleol dalu cymorth treth

busnes i’r rhai hynny yr effeithiwyd arnynt gan glwy’r traed a’r genau tan ddiwedd Gorffennaf yn hytrach na than ddiwedd Mehefin. Ni fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael.

7.6 Nododd y Dirprwy Lywydd fod William Graham wedi gofyn am amser ychwanegol ar gyfer hyn gan fod nifer o aelodau ei grŵp ef wedi dweud eu bod am gyfrannu at y ddadl. Dywedodd Jocelyn Davies y bydd aelod o’i phlaid hithau hefyd am gymryd rhan yn y ddadl. Awgrymodd y Dirprwy Lywydd y byddai’n synhwyrol, yn sgil y gofynion hyn, i ganiatáu tua 20 munud. **GWEITHREDU: Y Trefnydd i wneud y trefniadau priodol.**

7.7 Dywedodd y Trefnydd y byddai amser yn cael ei neilltuo ddydd Mawrth 26 Mehefin er mwyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud datganiad ynghylch cynnwys Araith y Frenhines. Byddai hyn yn dilyn yr un fformat a’r llynedd. Dywedodd y byddai’r ddadl ar Gymru a’r Undeb Ewropeaidd yn cael ei symud o ddydd Mawrth 26 Mehefin i ddydd Mercher 27 Mehefin ac y byddai’n dod ar ôl y ddadl ar Gymru a’r Byd.

**Amser yn y Cyfarfod Llawn i drafod materion ariannol** (BC206-01)

7.8 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur Wayne Cowley (Swyddfa Ffioedd).

7.9 Cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd at y posibilrwydd y byddai cynnig i fabwysiadu penderfyniad diwygiedig ar gyflogau a lwfansau Aelodau yn cael ei gyflwyno ac awgrymodd na ddylai hyn fod yn fater dadleuol ac y byddai modd ymdrin ag ef, gobeithio, o fewn tua 2 funud. Gofynnodd i’r Trefnydd ystyried ar frys a oedd modd ymdrin â’r cynnig heb ddyddiad trafod yr oedd ef wedi’i gyflwyno ar ran Pwyllgor y Tŷ i ethol Eleanor Burnham fel Ymddiriedolwr y Cynllun Pensiwn Aelodau yn lle Christine Humphreys ddydd Iau. **GWEITHREDU: Y Trefnydd i ddod â’r mater ger bron y Cyfarfod Llawn ddydd Iau.**

7.11 Roedd y papur hefyd yn cyfeirio at newid bychan i Reol Sefydlog 3 sydd yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i’r Cynulliad sicrhau bod lwfansau ar gael i grwpiau pleidiau o dan adran 34A Deddf Llywodraeth Cymru. 5 Gorffennaf oedd y dyddiad a awgrymwyd ar gyfer ystyried hyn yn y Cyfarfod Llawn. Ystyriwyd hefyd yr angen am drafodaeth ar gyllideb Swyddfa’r Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 19. 19 Gorffennaf oedd y dyddiad a awgrymwyd; Ni ellir ystyried cyllideb Swyddfa’r Llywydd ar ôl 20 Medi. **GWEITHREDU: Y Trefnydd i wneud y trefniadau priodol.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**